

## FENTON, RICHARD (1747 - 1821), bardd ac awdur

**Enw:** Richard Fenton

**Dyddiad geni:** 1747

**Dyddiad marw:** 1821

**Priod:** Eloise Fenton (née de Moudon)

**Rhiant:** Martha Fenton

**Rhiant:** Richard Fenton

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** bardd ac awdur

**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd; Teithio

**Awdur:** Frederick John North

Ganwyd yn Ionawr 1747 yn Nhyddewi, mab Richard a Martha Fenton. Cafodd ei addysg yn ysgol yr eglwys gadeiriol yno, ac yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen (ond nid yw ei enw gan Foster). Bu am gryn amser yn y gwasanaeth gwladol, yn y Custom House; ond eisoes yn 1774 yr oedd wedi ymaelodi yn y Middle Temple, ac fe'i derbyniwyd yn fargyfreithiwr ym mis Ionawr 1783, a bu'n dilyn cylchdeithiau Cymru am rai blynyddoedd, eithr yn raddol daeth materion llenyddol i'w ddiddori yn fwy na'r gyfraith. Ymysg ei gyfeillion yr oedd Oliver Goldsmith a [Syr Richard Colt Hoare](#); ar gais [Hoare](#) yr ysgrifennodd Fenton ei *Historical Tour through Pembrokeshire* (London 1810). Cyhoeddodd hefyd *A Tour in Quest of Genealogy*, 1811, *Memoirs of an Old Wig*, 1815 - y ddau lyfr hyn yn llawn o straeon ffraeth ac wedi eu cyhoeddi yn ddiennw - heblaw llyfrau barddoniaeth yn 1773 a 1790. Gadawodd ar ei ôl lawer o ysgrifeniadau heb eu cyhoeddi. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas y Cymmrodorion a phenodwyd ef yn llyfrgellydd iddi yn 1777; cyfeiria [Richard Morris](#) yn garedig ato yn 1779 (*N.L.W. Jnl.*, vi. 193); yr oedd hefyd yn un o aelodau cynnar (1776) y Gwyneddigion.

Yr oedd Fenton yn ieithydd da; barn un o'i gyfoeswyr amdano ydoedd ei fod yn 'r 'of indefatigable industry, of a fine poetical fancy,' ac yn un a chanddo 'the best information on almost every subject.' Oherwydd ei fod mor gyfarwydd â materion Cymreig ac â thafodieithoedd Cymru fe'i defnyddid gan y Llywodraeth i baratoi adroddiadau ar faterion yn ymwneuthur â chyflwr cymdeithasol a gwleidyddol Cymru.

Bu Fenton yn byw am ychydig flynyddoedd (c. 1788) gerllaw Machynlleth er mwyn gwneuthur ei deithiau trwy Gymru a'i astudiaeth o ddefnyddiau hanes Cymru yn fwy hwylus; dychwelodd i Sir Benfro yn 1793 er mwyn bod yn agos at ei ewythr, Samuel Fenton, perchennog llongau masnachu a etifeddwyd ac a weithiwyd gan Richard Fenton yn ddweddarach. Yn 1799 daeth ag d o'r Mô'r Canoldir, heb godi tâl cludo, a'i werthu am y pris a dalodd ef ei hun amdano i bobl yn Sir Benfro a gollwyd oherwydd i gynhaef y pysgod yn 1799 brofi mor wael.

Priododd Eloise, merch y cyrnol (a'r barwn) Pillet de Moudon, g r a anwyd yn yr Yswisdir ond a ymsefydlasai yn Lloegr. Bu farw yn Plas Glyn-y-mêl, gerllaw Abergwaun, yn gynnar ym mis Tachwedd 1821, a chladdwyd ef ym Maenor Owen, gerllaw Abergwaun.

## Awdur

Frederick John North, (1889 - 1968)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

hanes ei fywyd yn *A Historical Tour through Pembrokeshire* (London 1811) (ail arg.), 1903, ix-xxxi

Richard Fenton, John Fisher (gol.), *Tours in Wales (1804-1813): edited from his MS. journals in the Cardiff Free Library* (London 1917), rhagymadrodd

*Y Cymmrodor*, 1951, 60, 99

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Fenton](#)

## Gweithiau


Richard Fenton, *Poems* (London 1773)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [11017081](#)

Wikidata: [Q7325647](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

